# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Pin Coed**

**Cydweli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tŷ Pin Coed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | M&D Care Operations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan reolwr a gweithwyr gofal sy'n angerddol o ran cefnogi'r bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Pin Coed. Mae gofal, cymorth a llesiant y bobl yn hollbwysig i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gweithwyr gofal a'r cymorth y maent yn ei gael.

Mae'r rheolwr ardal a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn gadarn. Mae'r staff yn cael cyfnod sefydlu manwl ac maent yn cael y cymorth a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i'w cefnogi yn eu rolau.

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i ddilyn yr hobïau a'r diddordebau sy'n bwysig iddynt. Mae'r unigolion yn chwarae rhan weithgar wrth gadw eu cartref a'r gerddi yn daclus gyda chymorth gan y tîm o staff.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Gwrandewir ar bryderon a gweithredir arnynt. Mae mesurau recriwtio staff cadarn ar waith a rhoddir hyfforddiant sefydlu o ansawdd uchel. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arweiniad rheolaidd i'w cefnogi yn eu rolau. Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar waith i gefnogi'r staff, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant i'w cynorthwyo yn eu rôl ac i'w paratoi'n well i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolion. Mae gan y gweithwyr gofal ymwybyddiaeth glir o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu niwed sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr ardal a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth mewn ffordd glir.

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth sy'n cefnogi ac yn hybu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol mewn modd gweithredol. Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal a'u cymorth. Mae'r cofnodion gofal a chymorth a'r asesiadau risg cysylltiedig yn fanwl iawn ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ymgynghorir yn rheolaidd â'r bobl am eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau ar gyfer y gwasanaeth. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth fanwl am y bobl y maent yn eu cefnogi ac maent yn frwdfrydig ac yn angerddol dros weithio yn y gwasanaeth. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol allanol eu cynnwys yn weithredol yn iechyd a llesiant y bobl a gefnogir gan yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu diddordebau ac i ddysgu sgiliau newydd. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, digwyddiadau a hobïau sy'n bwysig iddynt. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn adlewyrchu anghenion, dewisiadau a diddordebau’r person yn glir. Mae'r bobl yn canmol yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn fawr ac yn dweud cymaint y maent yn eu mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal gwybodus iawn sy'n angerddol am y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn deall eu hanghenion unigol. Yn ystod yr arolygiad gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd caredig a pharchus. Mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu llafar a dieiriau yn unol ag anghenion unigol y bobl. Dywedodd y bobl a oedd yn gallu gwneud hynny wrthym cymaint y maent yn hoffi byw yng nghartref Tŷ Pin Coed; *"it's great here, I'm very happy as this is my home"* a *"the carers are really good and so is [rheolwr]".* Mae'r gweithwyr gofal yn glir iawn ynghylch eu cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth a'r rhwymedigaeth arnynt i roi gwybod am bryderon.

Mae'r cofnodion gofal a chymorth a'r asesiadau risg cysylltiedig o ansawdd uchel, yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Mae'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau gofal a chymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall anghenion unigol y bobl ac yn gallu ymateb i gyflyrau iechyd y bobl yn dda drwy eu gwybodaeth a'r hyfforddiant y maent yn ei gael. Mae'r bobl hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â'u gweithwyr allweddol. Caiff canlyniadau'r cyfarfodydd hyn eu cofnodi'n gywir a'u llofnodi gan yr unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n rhagweithiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau iechyd i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth ac mae'r rheolwr a'r tîm o staff yn hyrwyddo'r broses honno.

Caiff diddordebau, dymuniadau a dewisiadau unigol y bobl eu deall a'u hyrwyddo gan y rheolwr a'r staff. Mae cludiant ar gael i'r bobl ac maent yn mynd ar wyliau a theithiau i leoedd y maent yn eu hoffi ac sydd o ddiddordeb iddynt. Caiff gweithgareddau eu llunio a'u strwythuro ar y cyd â'r unigolyn, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ystyrlon iddo. Dywedodd y bobl wrthym am yr amrywiaeth o weithgareddau a diddordebau sydd ganddynt ac y maent yn cymryd rhan ynddynt. Dywedodd un unigolyn a oedd wedi dychwelyd o rôl wirfoddoli yn ystod yr arolygiad wrthym cymaint yr oedd yn ei gael allan o'r profiad a pha mor bwysig ydoedd iddo a'i ddiddordebau, *"I had a lovely time, walked miles".* Cynhelir cyfarfodydd cartref rheolaidd er mwyn cael gwybod safbwyntiau, barnau a dewisiadau'r bobl. Mae'r bobl hefyd yn gyfrifol am gadw eu cartref a'r gerddi yn daclus ac yn helpu'r staff i gwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i fyw mewn amgylchedd cartrefol. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu haddurno, eu dodrefnu a'u trefnu'n unol ag anghenion a dymuniadau'r unigolyn.
Mae'r ardaloedd cymunedol yn groesawgar ac yn cynnig rhywle i'r bobl gwrdd a chymdeithasu. Mae nifer o luniau ac arddangosiadau wedi'u creu gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac aelodau o'r staff i'w gweld yn yr ardaloedd cymunedol sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o gymuned ac o berthyn. Mae'r gerddi cymunedol mewn cyflwr da a gall y bobl eu mwynhau pan fydd y tywydd yn gynnes. Mae'r gwasanaeth yn lân ac mewn cyflwr da. Mae prosesau priodol ar waith i roi gwybod am faterion cynnal a chadw.

Caiff y risg i iechyd a diogelwch y bobl ei chadw mor isel â phosibl. Mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth. Caiff y cyfarpar diffodd tân ei wasanaethu'n rheolaidd, ac mae cyfyngwyr ar y ffenestri lle bo angen. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân a chaiff sylweddau peryglus i iechyd (COSSH) eu storio mewn cypyrddau dan glo. Mae cynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad ar gael yn hwylus mewn argyfwng. Cynhelir asesiadau risg amgylcheddol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth wedi'i ddarparu gan reolwr a thîm o staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi ac sy'n mwynhau gweithio yng nghartref Tŷ Pin Coed. Dywedodd y staff wrthym, *"it's brilliant here, a really nice environment, everyone is helpful, give advice, there's plenty of support. The manager and senior staff are really helpful, we are a tight group", "It's really good here I have a great work / life balance. M&D are great, it has been a fairly smooth transition from the other company. We are a chilled team. I have great support from the manager and seniors"* a *"[rheolwr] is great, you can speak to him at any time, and he'll always help you. [Rheolwr Ardal] is really nice as is [Unigolyn Cyfrifol] who always has a chat to the staff when he visits".*

Mae'r rheolwr yn brofiadol, wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwr a'r sefydliad; *"I am very well supported by my line manager and the RI".* Gwelsom enghreifftiau o gyfathrebu cadarnhaol a pharchus iawn rhwng y rheolwr a'i reolwr llinell yn ystod cyfnod yr arolygiad.

Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn angerddol am y gwaith y maent yn ei wneud. Gwnaethant ddweud wrthym *"I get so much out of supporting 'the guys', it is so rewarding", "this is what I call job satisfaction, being able to support [X] and see him achieve his goals is absolutely amazing and rewarding, for both of us".* Mae'r enghreifftiau o ryngweithio a welsom rhwng y staff a'r bobl yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau eu hymrwymiad i'w rolau a'u brwdfrydedd.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn glir ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae AGC wedi cael copïau o adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73 ac o adroddiadau ar yr Adolygiadau o Ansawdd y Gofal sy'n dangos hyn. Mae'r bobl a'r staff yn cadarnhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â nhw fel rhan o'r ymweliadau hyn. Cynhelir amrywiaeth o archwiliadau i lywio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae'r gweithwyr gofal yn destun proses recriwtio drylwyr. Mae'r cofnodion staff yn dangos bod y gwasanaeth yn gofyn am y gwiriadau a'r cliriadau priodol cyn iddynt ddechrau gweithio. Mae'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu o ansawdd; cafodd hyn ei gadarnhau gan weithiwr gofal a oedd wedi dechrau gweithio i'r sefydliad yn ddiweddar a ddywedodd wrthym "*I had a really great induction. I had plenty of time to read the care plans and get to know the residents. I think I did 6 shadow shifts"*. Mae'r staff hefyd yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol ynghyd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol i'w cefnogi yn eu rolau.

Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gael yn hwylus i'r staff gyfeirio atynt. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnig adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau drwy ei phroses hysbysu ar-lein.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2024